**Denu Cyfranwyr**

Gan nad yw'n bosib cynnig amser awyr i ddenu cyfranwyr i bob cynhyrchiad, mae tudalen **Cymryd Rhan** (S4C.Cymru/CymrydRhan) yn bodoli ar ein gwefan i gynnwys cyfleoedd i bobl serennu ar y gwasanaeth. Mae modd pwyntio at y tudalen trwy e-byst, wasg a chyfryngau cymdeithasol.

Mae croeso i gwmnïau cynhyrchu llenwi cais hyrwyddo ar gyfer y tudalen.

Mae angen llenwi bob bwlch ar y ffurflen a danfon llun safonol y maint cywir. Cofiwch wirio eich cais, ni fyddwn yn cyhoeddi unrhyw geisiadau sydd ddim yn gyflawn ac yn gywir. Gan bod ein gwefan yn ddwyieithog bydd angen darparu gwybodaeth ddwyieithog.

Gofynnir i chi danfon eich cais hyrwyddo mewn da bryd i'w osod, gyda chyfnod rhesymol i bobl ymgeisio (yn ddelfrydol o leiaf 14 diwrnod cyn y dyddiad cau).

Cysylltwch â Cydlynydd y Wê os oes unrhyw gwestiynau.